# Adolygiad o Berfformiad Ailgylchu Gwastraff – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3583A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae cyfradd ailgylchu gyffredinol y Cyngor yn wael ac, er ei fod yn deall y rhesymau sylfaenol, mae angen gwneud penderfyniadau a chynlluniau cadarn i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, cyrraedd targedau statudol presennol ac yn y dyfodol a rhoi sicrwydd i'w rhanddeiliaid allweddol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae cyfradd ailgylchu gyffredinol y Cyngor yn wael ac, er ei fod yn deall y rhesymau sylfaenol, mae angen gwneud penderfyniadau a chynlluniau cadarn i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, bodloni targedau statudol presennol ac yn y dyfodol a rhoi sicrwydd i'w rhanddeiliaid allweddol 8

- Mae'r Cyngor yn deall y rhesymau sylfaenol dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff cyffredinol gwael a'r rhwystrau i wella y mae angen iddo eu goresgyn 8
- Mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau gweithredu i wella, ond os yw am wella ei berfformiad ailgylchu ar y cyflymder a'r raddfa ofynnol, mae angen gwneud penderfyniadau ar frys mewn perthynas â'i gynigion newid gwasanaeth 10
- Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith o drefniadau priodol a ddylai gwella ei allu i fonitro a chofnodi perfformiad 13
- Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu digon cadarn eto i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau a monitro cynnydd tuag at wella ei berfformiad ailgylchu cyffredinol a rhoi sicrwydd i'w randdeiliaid allweddol 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Mwy nag ailgylchu 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Adolygwyd a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol. Gwnaethom edrych ar sut mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa bresennol a sut y gallai hynny newid dros amser, ei gamau gweithredu arfaethedig i wella perfformiad ailgylchu, a sut mae'n monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei gynnydd. Ni wnaeth yr adolygiad hwn archwilio'n fanwl yr holl wasanaethau rheoli gwastraff a ddarperir gan y Cyngor.

2 Yn 2015, adolygodd Archwilio Cymru wasanaeth gwastraff y Cyngor ac, yn benodol, a oedd y Cyngor yn gallu darparu ei wasanaethau rheoli gwastraff gan arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion. Bryd hynny, daethom i'r casgliad, oherwydd strategaeth dameidiog, diffyg adnoddau, atebolrwydd aneglur a her wael, nad oedd yn glir a allai'r Cyngor wella canlyniadau'n gynaliadwy drwy ei Wasanaeth Rheoli Gwastraff. Rhoddwyd naw cynnig gennym ar gyfer gwella[1].

3 Yn 2018, cwblhawyd adolygiad dilynol gennym i asesu a oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'n cynigion ar gyfer gwella er mwyn hwyluso canlyniadau cynaliadwy gwell ar gyfer rheoli gwastraff. Daethom i'r casgliad y bu cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn araf a bod rhai materion o bwys yn parhau, ond roedd perfformiad wedi gwella gyda ffocws a momentwm o'r newydd i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o fewn y gwasanaeth gwastraff.

4 Ar 9 Ebrill 2019, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff 2018-2025[2]. Mae Gwastraff yn rhan o'r flaenoriaeth Glân a Gwyrdd o fewn y Cynllun Corfforaethol 2016-21. Y weledigaeth yw darparu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono. Mae'r strategaeth a'r crynodeb o'r cynllun gweithredu[3] yn cwmpasu'r cyfnod pan fo'r targed statudol ar gyfer 'Canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd' yn cynyddu i 70% yn 2024-25.


[1] Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Asesiad Gwasanaeth o Reoli Gwastraff, Mehefin 2015

[2] Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff 2018-2025

[3] Amserlen a Chrynodeb o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth

**Arddangosyn 1: perfformiad ailgylchu'r Cyngor**


Llwyddodd y Cyngor i gyrraedd y targed statudol o 64% yn 2019-20 ond, ers dechrau'r pandemig, mae wedi cael trafferth cynnal ac adeiladu ar y momentwm hwnnw, ac mae perfformiad wedi gostwng yn is na'r targed ers hynny, sef 62.6% ar gyfer 2021-22. Fel cyd-destun, methodd pum cyngor arall yng Nghymru â chyrraedd y targed statudol ar gyfer 2021-22.




Ffynhonnell: Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol (gov.wales)

**Arddangosyn 2: gwariant refeniw net gwastraff y Cyngor fesul preswylydd**

Fel cyd-destun, yn 2021-22, gwariant refeniw net y Cyngor ar wastraff ac ailgylchu oedd £8.7 miliwn. Mae ei wariant fesul preswylydd wedi cynyddu dros amser ac wedi'i gynnal yn gyffredinol uwchlaw neu ar gyfartaledd Cymru dros y cyfnod ers 2008-09 tan 2021-22.




| | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Torfaen | 64.59 | 72.74 | 88.16 | 83.3 | 90.39 | 92.22 | 87.51 | 89.97 | 85.53 | 82.73 | 82.3 | 81.33 | 86.09 | 91.94 |
| Cymru | 68.4 | 74.8 | 78.5 | 77.9 | 81.5 | 80.6 | 78.9 | 75.4 | 77.7 | 77.1 | 80.4 | 82.5 | 86.7 | 88.8 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

5 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda detholiad o swyddogion ac aelodau gweithredol. Gwnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023.

## Yr hyn a nodwyd gennym

6 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?

7 Nodwyd gennym fod: cyfradd ailgylchu gyffredinol y Cyngor yn wael ac, er ei fod yn deall y rhesymau sylfaenol, mae angen gwneud penderfyniadau a chynlluniau cadarn i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, cyrraedd targedau statudol presennol ac yn y dyfodol a rhoi sicrwydd i'w rhanddeiliaid allweddol.

8 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn deall y rhesymau sylfaenol dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff cyffredinol gwael a'r rhwystrau i wella y mae angen iddo eu goresgyn;
- mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau gweithredu i wella, ond os yw am wella ei berfformiad ailgylchu ar y cyflymder a'r raddfa ofynnol, mae angen gwneud penderfyniadau ar frys mewn perthynas â'i gynigion newid gwasanaeth;
- Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith o drefniadau priodol a ddylai gwella ei allu i fonitro a chofnodi perfformiad, ac
- nid yw'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu digon cadarn eto i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau a monitro cynnydd tuag at wella ei berfformiad ailgylchu cyffredinol a rhoi sicrwydd i'w randdeiliaid allweddol.

# Argymhellion

**Arddangosyn 3: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion rydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Gwneud penderfyniadau ar frys**<br>A1 Er mwyn gwella ei berfformiad ailgylchu yn gyflym mae'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau brys am ei gynigion i wella gwasanaeth yn ddi-oed. |

**Argymhellion**

**Datblygu a monitro cynllun gweithredu**

A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun gweithredu cyfunol, manwl, mesuradwy wedi'i gostio. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau a cherrig milltir CAMPUS digonol a phriodol i reoli'r gwaith o gyflawni'r gwelliannau a galluogi prosesau monitro a gwerthuso effeithiol.

A3 Monitro a gwerthuso cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu a'i effaith ar berfformiad ailgylchu, a defnyddio trefniadau presennol i sicrhau bod adroddiadau craffu, herio a sicrwydd priodol yn galluogi dealltwriaeth ynghylch a yw'r buddion arfaethedig yn cael eu gwireddu.

# Adroddiad manwl

## Mae cyfradd ailgylchu gwastraff gyffredinol y Cyngor yn wael ac, er ei fod yn deall y rhesymau sylfaenol, mae angen gwneud penderfyniadau ar frys a chynlluniau cadarn os yw am ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, cyrraedd targedau statudol presennol ac yn y dyfodol, a rhoi sicrwydd i'w randdeiliaid allweddol

### Mae'r Cyngor yn deall y rhesymau sylfaenol dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff cyffredinol gwael a'r rhwystrau i wella y mae angen iddo eu goresgyn

9 Mae'r Cyngor yn deall ei berfformiad ailgylchu ac mae wedi defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ddeall ei sefyllfa bresennol. Er enghraifft, mae wedi cydweithio ag arbenigwyr yn y diwydiant Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i gael tystiolaeth fanwl o gyfansoddiad gwastraff y fwrdeistref sirol. Mae hefyd wedi casglu gwybodaeth gymharol am berfformiad ailgylchu a chynllun gwasanaethau awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr.

10 Mae Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynhyrchu symiau uchel o wastraff gweddilliol, dros 21%[4] yn fwy na'r awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi nodi'r prif resymau dros ei berfformiad ailgylchu gwael yn gyffredinol.

- mae dadansoddiad cyfansoddiad yn datgelu bod 40% o'r gwastraff gweddilliol yn cynnwys gwastraff bwyd y gellid ac y dylid ei ddargyfeirio i'r ffrwd ailgylchu.
- mae'r Cyngor yn gweithredu casgliad ailgylchu lle mae cerbydau ar wahân yn casglu deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu, a gwastraff bwyd a chardbord. Nodwyd bod y dull hwn o gasglu gwastraff bwyd a chardbord yn arwain at halogi cyfran o'r cardbord ac felly na ellir ei ailgylchu.
- yn ogystal, mae achosion o dorri i lawr a methiannau oherwydd y fflyd cerbydau ailgylchu sy'n heneiddio a ddefnyddir i gasglu bwyd a chardbord wedi cael effaith andwyol ar berfformiad y gwasanaeth. Mae hyn hefyd yn debygol o fod wedi cael effaith negyddol ar foddhad preswylwyr â'r gwasanaeth. Cynyddodd nifer y cwynion yn ymwneud â'r gwasanaeth gwastraff yn 2021-22, gyda mwyafrif y cwynion yn ymwneud â chasgliadau a fethwyd dro ar ôl tro.

[4] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Perfformiad Ailgylchu: Archwiliad Dwfn, pwyllgor trosolwg a chraffu glanach (tudalen 10), 9 Chwefror 2023

11 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi adolygu a chryfhau ei ddull o reoli risg ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i nodi a rheoli risgiau mewn perthynas â'i wasanaethau gwastraff yn weithredol ac yn y pen draw ei berfformiad ailgylchu gwastraff. Mae swyddogion yn cadw cofrestrau risg lefel prosiect, sy'n cael eu cyflwyno i aelodau ar wahanol gamau o'u proses lywodraethu megis i'r Bwrdd Prosiect Gwastraff.

12 Mae rhai o’r risgiau allweddol a allai gael effaith andwyol ar drefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu’r Cyngor, ac y mae’n ceisio’u rheoli a’u lliniaru’n weithredol yn cynnwys:

- pa mor addas a chynaliadwy yw safle cyfleuster trosglwyddo gwastraff Tŷ Coch;
- llithriad posibl yn yr amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith cyfalaf sydd ei angen yn
  Tŷ Coch i gefnogi gweithrediadau diwygiedig a gwella perfformiad ailgylchu;
- fforddiadwyedd gwaith cyfalaf yn y blynyddoedd ariannol i ddod, pe bai llithriadau yn y ddarpariaeth;
- gallu a gwydnwch y gweithlu i roi newidiadau ar waith a chynnal y gwasanaethau a ddarperir;
- gwneud penderfyniadau – unrhyw oedi diangen neu annisgwyl cyn cael cymeradwyaeth i weithredu ei gynigion e.e. newidiadau i'r trefniadau casglu gwastraff gweddilliol; a
- diffyg ymddygiad ailgylchu cywir ymhlith preswylwyr[5].

13 Mae cyfraddau ailgylchu gwastraff masnach wedi’u cynnwys ym mherfformiad ailgylchu cyffredinol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol i oddeutu 560[6] o gwsmeriaid. Mae hefyd yn cynnig casgliadau ailgylchu i bob cwsmer gwastraff masnachol. Ar hyn o bryd, mae'r gwastraff a gesglir i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio o wastraff masnachol yn cyfrannu tua 12%[7] at y perfformiad ailgylchu cyffredinol.

14 Yn naturiol, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'i heriau ailgylchu gwastraff presennol a llywio'r camau gwella angenrheidiol er mwyn iddo gyflawni'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud newidiadau sylweddol ac ar unwaith i wasanaethau os yw am symud yn gyflym tuag at y gyfradd ailgylchu gwastraff gyffredinol o 70% a osodwyd eisoes ar gyfer 2024-25. Mae hefyd yn ceisio rheoli a lliniaru’r risg a nodwyd y gall

[5] Cynhaliodd y Cyngor arolwg preswylwyr fel rhan o Brosiect Ailgylchu Gwastraff Bwyd a nododd y gallai mwy o wybodaeth a mwy o adnoddau ddylanwadu'n gadarnhaol ar gyfraddau ailgylchu gwastraff bwyd.

[6] Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff 2018-2025

[7] StatsCymru, Gwastraff dibreswyl wedi’i gasglu ar gyfer ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gan awdurdod lleol

Llywodraeth Cymru osod cosbau ariannol sylweddol ar awdurdodau lleol sy'n methu â chyrraedd y targedau statudol.

15 Serch hynny, mae'r Cyngor yn ymwybodol ac yn ystyried nifer o ffactorau allweddol a fydd yn effeithio ar ei fodelau darparu gwasanaeth a pherfformiad ailgylchu gwastraff yn y dyfodol. Mae rhai o'r ffactorau hyn yn gymharol glir, er, i rai, nid yw manylion a graddfa eu heffaith bosibl yn glir nac yn hysbys eto. Er mwyn llywio ei ystyriaeth, ar lefel leol, mae'r Cyngor wedi defnyddio gwybodaeth am dwf tai yn ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'i gyfoeth ei hun o Ddata Gwastraff.

16 Mae'r ffactorau allweddol hyn yn cynnwys:

- y cynnydd pellach tebygol yn nhargedau ailgylchu gwastraff Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais i Gymru fod yn ddiwastraff erbyn 2050;
- Mwy nad ailgylchu[8] – strategaeth Llywodraeth Cymru i wneud economi gylchol Cymru yn realiti [gweler **Atodiad 1**] – sy'n anelu at gadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd ag y bo modd ac sy'n osgoi pob math o wastraff;
- cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS)[9] a allai effeithio ar faint o ddeunydd y gellir ei ailgylchu a gyflwynir wrth ymyl y ffordd;
- bydd rheoliadau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwastraff Masnachol [10] yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob busnes, y sector cyhoeddus a sefydliad trydydd sector yng Nghymru wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn yr un ffordd ag y mae'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai yn ei wneud ar hyn o bryd.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau gweithredu i wella, ond os yw am wella ei berfformiad ailgylchu ar y cyflymder a'r raddfa ofynnol, mae angen gwneud penderfyniadau ar frys mewn perthynas â'i gynigion newid gwasanaeth

17 Mae strategaeth ailgylchu a gwastraff integredig y Cyngor 2018-2025 (y strategaeth) yn nodi gweledigaeth glir i 'ddarparu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono'. Yn y strategaeth mae chwe amcan a chynllun gweithredu lefel uchel i'r Cyngor gyrraedd

[8] Llywodraeth Cymru, Mwy Nag Ailgylchu – strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti, Mawrth 2021

[9] Drwy'r DRS, codir ffi blaendal ychwanegol ar ddefnyddwyr pan fyddant yn prynu diod mewn cynhwysydd untro. Mae'r blaendal hwn yn gymhelliant i gefnogi ailgylchu – caiff ei adbrynu pan fydd y defnyddiwr yn dychwelyd y cynhwysydd gwag i fan dychwelyd.

[10] Llywodraeth Cymru, Casgliadau gwastraff ar wahân ar gyfer busnesau a sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector, Ebrill 2023

y targed ailgylchu statudol o 70% erbyn 2025 ac i weithio tuag at gydymffurfio â Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru.[11] Y chwe amcan yw:

- Ymgysylltu yn Gyntaf
- Ailgylchu i Bawb
- Cydweithio
- Lleihau Gwastraff
- Gwelliant Parhaus
- Gorfodi Teg

18 Mewn perthynas â'r strategaeth, mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau i wella. Mae wedi defnyddio ei sylfaen dystiolaeth (y cyfeirir ati ym **mharagraff 15**) a ffynonellau eraill i nodi cynigion sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol. Er enghraifft, o dan ei amcan Ailgylchu i Bawb, ym mis Chwefror 2022, cymeradwyodd y Cyngor gaffael cerbydau newydd yn lle ei fflyd sy'n heneiddio. Mae hyn er mwyn sicrhau gwasanaeth casglu ailgylchu dibynadwy i breswylwyr ac i gydymffurfio â Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru. Er bod oedi mewn perthynas â danfon y cerbydau newydd, maent i gyd wedi cyrraedd erbyn hyn. Bydd y cerbydau newydd hyn yn galluogi un cerbyd i gasglu'r holl ddeunydd ailgylchu ar yr un pryd (un cerbyd). Dylai hyn arwain at ansawdd cardbord gwell gan y bydd yn ofynnol i breswylwyr wahanu bwyd a chardfwrdd. Hefyd, gellir cyflwyno tecstilau ac eitemau trydanol bach wrth ymyl y ffordd i'w casglu. Fodd bynnag, er bod y cerbydau newydd yn cael eu defnyddio, mae'r trefniadau un cerbyd yn annhebygol o gael eu rhoi ar waith cyn mis Medi 2023.

19 Cyflwynodd y Cyngor system ddidoli bagiau du yn ei Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC). Mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i breswylwyr ddidoli cynnwys eu gwastraff gweddilliol i hyrwyddo ailgylchu deunyddiau ymhellach. Mae wedi arwain at fwy o ailgylchu a gostyngiad o 66% yn y gwastraff gweddilliol a gyflwynir yn y CAGC.

20 Mae'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn ystyried sut y gall integreiddio ei waith â gwaith ei gydweithwyr ar draws y Cyngor. Er enghraifft, mae wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer prosiectau ataliol sy'n cysylltu â strategaeth datgarboneiddio'r Cyngor.

21 Mae gan y Cyngor nifer o bartneriaid y mae'n cydweithio â nhw, er enghraifft, mae'n gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu Caffi Trwsio a Siop Ailddefnyddio. Mae'r bartneriaeth hon wedi dargyfeirio miloedd o eitemau o safleoedd tirlenwi i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu. Mae ganddo hefyd bartneriaeth â Capital Valley Plastics i ailgylchu plastig sy'n ymestyn yn gynhyrchion newydd.

22 Fodd bynnag, mae'r camau gwella hyn ar eu pen eu hunain wedi bod yn annigonol i ysgogi faint o welliant sydd ei angen i'r gyfradd ailgylchu gyffredinol. Mae'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu wedi wynebu pwysau ar gapasiti ei weithlu ers

[11] Llywodraeth Cymru, Cynllun sector trefol rhan 1: patrwm ar gyfer casglu, Mawrth 2011

peth amser. Ynghyd ag effaith y pandemig, mae wedi atal y Cyngor rhag bwrw ymlaen ag elfennau o'r strategaeth. Er enghraifft, nid yw camau gweithredu arfaethedig mewn perthynas ag amcanion 'Ymgysylltu yn Gyntaf' a 'Cydweithio' wedi symud ymlaen yn ddigonol.

23 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo symud ymlaen i ddatblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu, cyfathrebu ac allgymorth cadarn i ymgysylltu a hyrwyddo ailgylchu gyda phreswylwyr a rhanddeiliaid eraill i gyfrannu at berfformiad gwell. Gall cynigion newid arwain defnyddwyr gwasanaethau i feddwl bod gwasanaethau'n cael eu tynnu oddi arnynt, pan fydd newidiadau mewn gwirionedd yn arwain at fwy o wasanaethau, ychydig llai o wastraff gweddilliol. Bydd cynnwys cymunedau yn allweddol i fwrw ymlaen â mentrau atal a lleihau gwastraff a chyflawni ei huchelgais i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%.

24 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau ar gyfer casgliadau ailgylchu a gwastraff gweddilliol ar wahân. Mewn cydweithrediad â WRAP, mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion ar gyfer ei wasanaeth casglu gwastraff gweddilliol a gorfodi i sicrhau'r cynnyrch ailgylchu mwyaf posibl. Mae'r cynigion wedi'u modelu a'u costio'n helaeth ac mae gwerthusiad opsiynau clir wedi'i ddatblygu. Mae'r gwaith modelu yn dangos, er mwyn agosáu at y targed ailgylchu o 70%, bydd angen i'r Cyngor leihau a/neu gyfyngu ar faint o wastraff gweddilliol y mae preswylwyr yn ei gyflwyno i'w gasglu.

25 Mae'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau ariannol ei gynigion ac mae'n dyrannu adnoddau ariannol ar gyfer cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith fel y rhai y mae'n eu cynnig yn ei gyfleuster trosglwyddo gwastraff, ac eraill gyda'r nod o ddarparu capasiti a lleddfu pwysau ar wasanaethau.

26 Ym mis Chwefror 2023, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach[12], yn nodi'r opsiynau. Gwnaethom oruchwylio'r cyfarfod a nodi, er ei fod yn fwriadol, mai prin oedd y craffu neu'r her fel y'i cyflwynwyd mewn perthynas â'r opsiynau casglu gweddilliol fel y'u cyflwynwyd. Er bod swyddogion o'r farn bod y canlyniad wedi helpu i gryfhau'r broses gyffredinol a gwella lefel yr ymgysylltu, yn ein barn ni, gellir cryfhau effaith y pwyllgor craffu ymhellach drwy her fwy effeithiol.

27 O ystyried effaith bosibl ei gynigion gwasanaeth ar breswylwyr, mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ar yr opsiynau ag ystod amrywiol o'r boblogaeth i lywio ei gynnig terfynol i'r Cabinet. Roedd y cyfnod ymgynghori i fod i ddechrau ddiwedd mis Chwefror 2023, ond mae wedi cael ei ohirio.

28 Mae ein hadolygiad wedi nodi bod nifer o gynigion sylweddol i newid seilwaith a gwasanaethau sy'n hanfodol i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu'r strategaeth ac i oresgyn rhwystrau a nodwyd i wella perfformiad. Down i'r casgliad os yw'r Cyngor am mae'r Cyngor am wella ei berfformiad ailgylchu ar y cyflymder a'r raddfa ofynnol, mae angen gwneud penderfyniadau ar frys mewn perthynas â'i gynigion newid gwasanaeth;

[12] Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach

29 Hyd nes y gwneir penderfyniadau o’r fath, ni all y Cyngor gynllunio’n effeithiol i gyrraedd y targedau ailgylchu statudol, heb sôn am symud ei ffocws y tu hwnt i’r targedau i sut y gall ei ddull o ymdrin â gwastraff gyfrannu at uchelgeisiau mwy hirdymor ynghylch yr economi gylchol a’r nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sydd yn amcanion ehangach y Cyngor.

## Mae’r Cyngor wedi datblygu fframwaith o drefniadau priodol a ddylai gwella ei allu i fonitro a chofnodi perfformiad

30 Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ac adolygu ei gynnydd strategol a pherfformiad ailgylchu cyffredinol. Mae gan y Cyngor Fwrdd Prosiect Gwastraff sy'n goruchwylio datblygiad y cyfleuster trosglwyddo gwastraff a chasglu gweddilliol yn ogystal â phrosiectau eraill, megis technoleg cerbydau digidol, ailgyfeirio gwastraff a rowndiau casglu. Mae gan y Bwrdd Prosiect Gwastraff aelodaeth gynhwysfawr sy'n cynnwys cydweithwyr o rannau eraill o'r Cyngor, er enghraifft, Cyllid, y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), a Chyfathrebu.

31 Cafwyd adroddiadau rheolaidd i aelodau ar elfennau penodol o gynllun gweithredu lefel uchel y strategaeth. Er enghraifft, gofynnodd am gymeradwyaeth i gefnogi lleoliad dewisol ar gyfer cyfleuster trosglwyddo gwastraff; strwythur arweinyddiaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu, a chaffael fflyd cerbydau ailgylchu newydd.

32 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnwys aelodau mewn trafodaethau am berfformiad ailgylchu gwastraff a chynigion ar gyfer gwella drwy seminarau i aelodau, gan roi cyfle priodol ar gyfer cwestiynau a her.

33 Mae'r Cyngor wedi costio llawer o'i gynigion, ond mae'r wybodaeth mewn perthynas â chostau a buddsoddiad angenrheidiol yn dameidiog. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i uwch-arweinwyr gael trosolwg o’r wybodaeth ariannol i allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

34 Mae gan Fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF) newydd y Cyngor drefniadau ar gyfer adrodd yn chwarterol i'r tîm Arweinyddiaeth a'r Fforwm Datblygu Polisi. Unwaith y caiff trefniadau eu hymgorffori, bydd adroddiadau perfformiad rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu.

35 Mae’r PMO yn cefnogi’r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu gyda chynllunio, cychwyn a chyflawni rhaglenni, a phrosiectau allweddol megis cyfleuster trosglwyddo gwastraff Tŷ Coch a newidiadau i gasgliadau gwastraff gweddilliol, er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn cael eu darparu’n dda ac i sicrhau’r canlyniadau cadarnhaol gorau posibl. Mae'n monitro cynnydd y prosiectau drwy gyfarfodydd misol lle cyflwynir adroddiadau ar y prif bwyntiau er mwyn helpu i nodi a blaenoriaethu unrhyw faterion wrth iddynt godi.

36 Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein gwaith gyda’r Cyngor, rydym yn fodlon ei fod wedi datblygu fframwaith o drefniadau priodol a ddylai gwella ei allu i fonitro a chofnodi perfformiad. Er eu bod yn gymharol newydd, mae'r Cyngor wedi dechrau

ymgorffori'r trefniadau hyn ac mae'n adolygu eu heffeithiolrwydd a'u cwmpas ar gyfer datblygu gyda phob iteriad, er enghraifft, bob chwarter yn y Fforwm Datblygu Polisi.

## Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu digon cadarn eto i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau a monitro cynnydd tuag at wella ei berfformiad ailgylchu cyffredinol, a rhoi sicrwydd i'w randdeiliaid allweddol

37 Mae’r Cyngor yn deall y rhesymau sylfaenol dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff cyffredinol gwael a’r rhwystrau i wella y mae angen iddo eu goresgyn. Mae hefyd yn gallu mynegi ffrydiau gwaith allweddol y mae naill ai'n bwrw ymlaen â nhw neu'n bwriadu eu cychwyn yn amodol ar benderfyniadau allweddol sydd heb eu gwneud eto.

38 At ei gilydd, mae wedi nodi’r costau refeniw a chyfalaf sy’n gysylltiedig â’r ffrydiau gwaith hyn ac mae wedi gwneud darpariaeth ar gyfer y costau hynny, naill ai drwy ei ddull ei hun neu gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Er, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae'r wybodaeth hon yn dameidiog ar hyn o bryd.

39 Mae swyddogion wedi dweud wrthym y bydd y ffrydiau gwaith hyn, pan gânt eu cyflawni, yn arwain at gyfraniad cadarnhaol at wella cyfraddau ailgylchu cyffredinol. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn wedi ein sicrhau bod yr ymchwil, y dadansoddiad arbenigol, canllawiau Llywodraeth Cymru a’r arferion da a nodwyd yn cefnogi’r ffordd y mae’r Cyngor yn dewis ac yn dilyn ei ffrydiau gwaith dewisol. Fodd bynnag, ar wahân i’r opsiynau casglu gwastraff gweddilliol, nodwn nad yw’r mesur o gyfraniad cadarnhaol y ffrwd waith unigol yn cael ei feintioli, naill ai’n unigol neu ar y cyd. Ni allwn ychwaith weld bod y ffrydiau gwaith yn cael eu dwyn ynghyd drwy gyfrwng cynllun gweithredu cyfunol, ac felly nid yw'r amserlen gyffredinol ar gyfer eu cwblhau yn glir.

40 O ystyried pwysigrwydd strategol Strategaeth Wastraff y Cyngor, ynghyd â’r risgiau sylweddol sy’n gysylltiedig ag unrhyw fethiant parhaus i wella perfformiad ailgylchu cyffredinol, rydym o’r farn bod hon yn sefyllfa sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i’r Cyngor ddatblygu cynllun gweithredu cyfunol, manwl, wedi’i gostio [13] a mesuradwy. Dylai’r cynllun gweithredu gynnwys mesurau a cherrig milltir CAMPUS digonol a phriodol i alluogi prosesau monitro a gwerthuso effeithiol, ac yn benodol:

- cynnydd tuag at gwblhau camau gweithredu arfaethedig i osod safonau amser ac ansawdd;
- unrhyw rwystrau a gafwyd a chamau lliniaru yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol;

[13] Dylai'r cynllun fanylu ar yr holl adnoddau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant o ran punnoedd, adnoddau pobl ac asedau.

- effaith arfaethedig a gwirioneddol y camau gweithredu ar berfformiad ailgylchu cyffredinol;
- perfformiad ariannol mewn perthynas â chyllideb/cynaliadwyedd/gwerth am arian, ac
- effeithiau ehangach yn ymwneud â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

41 Bydd cynnal, monitro ac adrodd ar y Cynllun Gweithredu a'i werthusiad yn allweddol, nid yn unig i'r Cyngor fwrw ymlaen â'i gynlluniau a chyflawni'r effaith ddymunol ar ei berfformiad ailgylchu cyffredinol, ond hefyd i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i'w ddinasyddion, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill.

# Atodiad 1

## Mwy nag Ailgylchu

**Arddangosyn 4: Gwneud yr Economi Gylchol yng Nghymru yn Realiti – nod Llywodraeth Cymru yw defnyddio adnoddau am gyfnod sydd mor hir â phosibl ac osgoi gwastraff**



Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.